MAS
AR Y MAES

## Sgen ti syniad?

Ry'n ni'n chwilio am eitemau creadigol, cyffrous ac addysgiadol ar gyfer rhaglen newydd sbon sy'n dathlu a chodi ymwybyddiaeth o fis Hanes LHDT ym mis Chwefror 2021. Gan mai dathlu hanes yw'r nod, ry'n ni'n chwilio'n arbennig am syniadau sy'n archwilio hanes Cymru a'i phobl yng nghyd-destun hawliau LHDT a Chymreictod.

Mae hwn yn rhan o brosiect Mas ar y Maes, elfen bwysig o'r Eisteddfod, sy'n cynnwys gweithgareddau Cymraeg LHDTaidd ar gyfer pob oedran. Felly, os oes gen ti syniad, ry'n ni am ei glywed.

Paid â phoeni os nad yw'r syniad yn ateb y briff yn union, ry'n ni bob amser yn croesawu syniadau da, ac efallai y gallwn ei ddefnyddio fel rhan o raglen lawn nesaf Mas ar y Maes.

## Pwy all gyflwyno syniadau?

Ry'n ni'n croesawu ceisiadau gan artistiaid o bob cefndir a hunaniaeth, ac yn arbennig o awyddus i glywed gan y rheini sy'n LHDT+, cwiar, anabl, yn bobl o liw a phobl o hunaniaethau du, Asiaidd neu o gefndiroedd ethnig i fod yn rhan o'r cyfle cyffrous yma.

Mae'n gwbl agored o ran genre - beth bynnag yw dy arbenigedd di fel artist, yn gerddoriaeth, comedi, dawns, drama, barddoniaeth, stori fer, celf weledol, darlith ayb - anfona dy syniadau atom. Mae angen iddo fo fod yn waith newydd yn y Gymraeg sy'n mynd i apelio at gynulleidfa eang.

Byddwn yn cynnwys y comisiynau buddugol fel rhan o'r amserlen i'w ddarlledu ar blatfformau digidol yr Eisteddfod. Does dim terfyn amser, gall fod yn 5 munud neu'n 20 munud. Mae'r cyfan i fyny i ti fel artist.

## Sut alla i gyflwyno syniad?

Anfona gopi o dy CV, enghraifft o waith a braslun o'r syniad at sioned@eisteddfod.org.uk, neu mae croeso i ti gyflwyno fideo o hyd at 5 munud os wyt ti'n teimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud hynny. Os wyt ti angen cyflwyno dy syniad mewn ffordd arall neu eisiau trafod hygyrchedd, cysyllta gyda Sioned yn swyddfa'r Eisteddfod neu Iestyn yn Stonewall Cymru.

## Ffi

Rydym yn cynnig ffi o £250 am eitem, ac rydym yn awyddus i gomisiynu pedair eitem. Mae'r ffi yn cynnwys pob elfen o'r gwaith, o'r cynllunio i'r creu a'r arddangos ac unrhyw waith ffilmio a golygu bydd ei angen.

## Panel dewis

Os yw dy syniad yn apelio, byddwn yn dy wahodd am sgwrs dros Zoom, gyda Elen Elis a Sioned Edwards o'r Eisteddfod, Iestyn Wyn o Stonewall Cymru a Catrin Morris o Maes B, cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

## Dyddiad Cau

17:00, dydd Llun 14 Rhagfyr

### Do you have a great idea?

We're looking for creative, exciting and educational ideas for a brand new programme to celebrate and raise awareness of LGBT History Month in February 2021. As we'll be celebrating history, we're keen to have ideas looking at the history of Wales and our people in a LGBT rights and Welsh context.

This is part of the Mas ar y Maes project, which organises Welsh language LGBTish activities for people of all ages, an increasingly important part of the Eisteddfod. So, if you've got an idea, we want to hear it.

Don't worry if your concept doesn't quite fit the brief, we're always looking for great ideas, and we may well be able to use your vision as part of the next Mas ar y Maes full programme.

### Who can apply?

We'd love to hear from creative people from all backgrounds and identity, and we're particularly keen to hear from artists who are LGBT+, queer, disabled, people of colour and black and Asian identity or from ethnic backgrounds to be part of this exciting project.

Your creative genre is entirely up to you. Whether your chosen form is music, comedy, dance, drama, poetry, short stories, visual arts, lecturing etc. – get in touch and send us your idea. It needs to be a new piece of work in Welsh which can appeal to a wide audience.

All the successful commissions will be included in our LGBT History Month programme, broadcast across the Eisteddfod's digital channels. And there's no time constraints - your work can be 5 minutes or 20 minutes long. It's up to you.

### How can I apply?

It's easy. Send your CV, an example of your work and a synopsis of your idea to sioned@eisteddfod.org.uk, or if you'd prefer, send us a video up to five minutes long. If you need to present your ideas in another way or want to chat to us about accessibility, get in touch with either Sioned at the Eisteddfod or Iestyn in Stonewall Cymru.

### Fee

We're offering a £250 fee for each item, and are keen to commission four items. The fee has to include all elements of the work, including any filming and editing work you'll need.

### Selection Panel

If we like your concept, we'll invite you to chat to us on Zoom, with Elen Elis and Sioned Edwards from the Eisteddfod, Iestyn Wyn from Stonewall and Catrin Morris from Maes B, before making the final decision.

### Closing Date

17:00, Monday 14 December